Disgrifiad o'r Swydd

Teitl y Swydd: Swyddog Marchnata a Chyfathrebu

Cyflog: £29,328 ar drefniant PAYE

Oriau Gwaith: Mae hon yn swydd lawn amser. Gall fod angen gweithio gyda'r nosau neu ar benwythnosau yn achlysurol.

Gwyliau: Bydd gan ddeiliad y swydd hawl i 20 diwrnod y flwyddyn o wyliau ac 8 diwrnod o wyliau banc

Contract: Mae hwn yn gontract blwyddyn gyda golwg ar ei ymestyn. Mae cyfnod prawf cychwynnol o 6 mis.

Adolygu: Caiff y swydd ei hadolygu ar ôl 6 mis.

Lleoliad: Caerdydd

Gair am NoFit State

NoFit State yw'r prif gwmni syrcas gyfoes yn y Deyrnas Unedig sy'n gwneud sioeau ar raddfa fawr. Mae'n cynhyrchu sioeau teithiol proffesiynol a phob math o brosiectau cymunedol, addysgol, a hyfforddiant i bobl o bob oed. Dros y deng mlynedd diwethaf bu cynyrchiadau teithiol NoFit State mewn 19 o wledydd, gan berfformio i gynulleidfaoedd o dros 1.6 miliwn. Cawsant eu canmol gan adolygwyr ac ennill nifer fawr o wobrau rhyngwladol o bwys.

Mae Nofit State yn sefydliad creadigol, deinamig sy'n ffynnu wrth wynebu her ac sydd bob amser yn ceisio dysgu a gwella ym mhopeth a wna. Cawn ein hysbrydoli gan y pethau rhyfeddol y gall pobl gyffredin eu cyflawni ac rydym yn dathlu'r nerth a ddaw i'r gymuned wrth fyw bywyd teithiol traddodiadol y syrcas.

A ninnau'n gwmni teithiol rhyngwladol sydd â'n gwreiddiau mewn cenedl ddwyieithog, mae NoFit State yn gwmni amlieithog ac amlddiwylliannol sy'n dathlu amrywiaeth ieithyddol a diwylliannol.

Gair amdanoch chi

Rydych naill ai wedi graddio'n ddiweddar neu wedi cael profiad perthnasol cyfatebol ac rydych yn berson uchelgeisiol sy'n gweld y celfyddydau fel rhan bwysig o'ch bywyd. Rydych yn awyddus i sicrhau bod cynifer o bobl â phosibl yn cael profiad o waith NoFit State ac yn cael eu hysbrydoli a'u herio ganddo.

Rydym ni fel cwmni'n gosod targedau heriol iawn i'n hunain, a bydd gennych chi ran hanfodol yn eu cyflawni. Byddwch yn datblygu strategaethau ar gyfer ein rhaglen waith gynyddol, gan ddarparu cymorth hanfodol ar gyfer holl anghenion marchnata a chyfathrebu'r cwmni, a dirprwyo dros y Rheolwr Marchnata a

NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806

Chyfathrebu pan fydd angen. Byddwch yn awyddus i ddatblygu'ch sgiliau ac ymgymryd â heriau newydd.

Byddwch yn rhan annatod o'n tîm gan weithio ar ymgyrchoedd deinamig ar y cyfryngau er mwyn ennyn diddordeb yn ein sioeau Big Top, ein rhaglen gymunedol, ein gwyliau a'n prosiectau.

Prif Gyfrifoldebau

Bydd cwmpas y swydd yn eang, a chaiff ei theilwra yn ôl sgiliau a chryfderau'r ymgeisydd a ddewisir. Bydd yn cynnig sylfaen gref ym mhob maes.

Byddwch yn ymdrin â meysydd allweddol yn cynnwys cyfathrebu, datblygu cynulleidfaoedd, cynnal a chadw'r wefan, datblygu systemau a phrosesau, rheoli perthnasoedd a defnyddio data ac ymchwil.

Beth y Byddwch yn ei Wneud

- Byddwch yn sicrhau bod ein deunyddiau yn dyrchafu ein brand a'u bod yn hygyrch iawn
- Wrth gyfathrebu, yn ysgrifenedig ac yn weledol, byddwch yn defnyddio'ch dealltwriaeth fanwl o'n gwahanol gynulleidfaoedd i greu negeseuon pwrpasol
- Byddwch yn ymgysylltu'n ardderchog â phobl trwy deilwra cynnwys creadigol ar wahanol lwyfannau
- Byddwch yn datblygu ac yn adeiladu ar nifer y bobl sy'n ymgysylltu â'n gwaith, yn meithrin cynulleidfaoedd mwy amrywiol, ac yn dyfnhau'r ymgysylltiad â'n cynulleidfaoedd presennol
- Byddwch yn cyfathrebu mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar y gynulleidfa er mwyn datblygu cynulleidfaoedd
- Byddwch yn sicrhau taith esmwyth i'n holl gynulleidfaoedd drwy ddatblygu deunyddiau a systemau sy'n gyson ac yn briodol
- Byddwch yn rhagweld tueddiadau ymhlith cynulleidfaoedd ac yn llywio strategaeth ar gyfer cynllunio'r gwaith cyfathrebu trwy gasglu a dadansoddi data priodol
- Byddwch yn meithrin perthnasoedd hanfodol gyda gweithwyr llawrydd a'r wasg
- Unrhyw ddyletswyddau eraill y mae'n rhesymol gofyn amdanynt.

Canllaw yw hyn i natur y gwaith y bydd yn ofynnol i'r Swyddog Marchnata a Chyfathrebu ei wneud. Nid yw'n cynnwys popeth nac yn cyfyngu ar yr hyn a ofynnir a gellir ei adolygu gyda deiliad y swydd a'r rheolwr llinell o bryd i'w gilydd.

Manyleb y Person

Rydych yn gallu gweithio i derfynau amser tynn a gweithio'n dda dan bwysau.

Rydych yn gallu cydbwyso gwahanol ofynion ar yr un pryd a blaenoriaethu gwaith.

Rydych yn canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na thasgau.

Rydych yn dda am ddatrys problemau gan ddefnyddio'ch blaengaredd wrth wynebu heriau.

Mae gennych lygad craff am fanylion ond gallwch weld y darlun ehangach hefyd.

Mae gennych synnwyr gweledol cryf a dealltwriaeth o frandio.

Mae gennych ddawn i ysgrifennu a gallwch addasu'ch arddull ar gyfer gwahanol fformatau a chynulleidfaoedd.

Rydych yn angerddol o blaid y celfyddydau perfformio ac, yn ddelfrydol, rydych yn gwybod rhywfaint am syrcas gyfoes.

Rydych yn ddymunol, ac yn mwynhau bod yn rhan o dîm clos, amrywiol a deinamig o bobl.

Rydych yn mwynhau gwrando ar bobl eraill yn dweud beth sy'n eu cymell ac yn eu hysbrydoli ac yn dod i ddeall hynny.

Mae gennych agwedd gadarnhaol.

Rydych yn hyblyg ac yn barod i ddysgu.

Sgiliau, nodweddion a phrofiad hanfodol	**Sgiliau, nodweddion a phrofiad dymunol**
Synnwyr gweledol cryf a'r gallu i ddylunio a chreu yn unol â chanllawiau brandio	Gwybodaeth am yr Adobe Creative Suite ac yn gallu ei defnyddio, yn enwedig InDesign a Photoshop
Deall sut i ddefnyddio Canva a phrofiad o wneud hynny	Gallu golygu fideo gan ddefnyddio Premiere Pro neu After Effects Byddai sgiliau ffotograffiaeth neu fideo yn fonws Profiad o baratoi dogfennau i gael eu hargraffu
Sgiliau cyfathrebu cryf ar lafar ac yn ysgrifenedig yn Saesneg	Gallu siarad ac ysgrifennu Cymraeg yn rhugl ac yn hyderus
Gallu ysgrifennu darnau creadigol a gafaelgar	Darllenydd proflenni craff

NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806

Gallu addasu'ch arddulliau ysgrifennu ar gyfer gwahanol fformatau a chynulleidfaoedd	
Hyderus yn defnyddio cyfrifiaduron a gwahanol feddalwedd digidol a chyfryngau cymdeithasol	Profiad o gronfeydd data a/neu system CRM; Spektrix neu arall Meddalwedd e-bost; DotDigital Gallu defnyddio Google Analytics a Meta Ads Hyderus yn defnyddio cyfrifiaduron Apple
Gwybodaeth am wahanol lwyfannau'r cyfryngau cymdeithasol; Instagram, Facebook, Twitter, TikTok ac ati ac yn gallu eu defnyddio	
Dealltwriaeth o gynnal a chadw gwefannau	Profiad o ddefnyddio Concrete 5, Wordpress, Drupal neu system CMS arall ar gyfer gwefannau Profiad o greu neu olygu gwefannau a pheth gwybodaeth am godio sylfaenol fel HTLM neu CSS
Gallu gweithio i derfynau amser tynn a gweithio dan bwysau ar sawl prosiect neu linyn o waith ar yr un pryd	Gallu blaenoriaethu gwaith a gweld pa dasgau sy'n rhai brys a phwysig
Sgiliau gwrando a chyfathrebu da	Deall sut i benderfynu pa wybodaeth sy'n hanfodol a chyfathrebu'n effeithiol
Canolbwyntio ar ganlyniadau yn hytrach na thasgau	
Safonau rhifedd uchel ac yn gallu llunio taenlenni a'u defnyddio	Gallu dehongli data a'i ddefnyddio i wneud penderfyniadau gwybodus
Ymroi i sicrhau bod deunyddiau marchnata a chyfathrebu yn hygyrch	Gwybod sut i greu deunyddiau hygyrch, print a/neu ddigidol, yn y byd go iawn

Safle yn y cwmni

- Y Rheolwr Marchnata a Chyfathrebu yw rheolwr llinell y Swyddog Marchnata a Chyfathrebu
- Byddwch yn gweithio ym mhob rhan o weithgarwch marchnata a chyfathrebu'r cwmni
- Byddwch yn cydweithio â holl aelodau eraill y tîm craidd
- Byddwch yn cydweithio â sefydliadau allanol a gweithwyr llawrydd

Trosolwg

Mae hon yn swydd lawn amser, am 40 awr yr wythnos ar gyfartaledd, ar ôl cwblhau cyfnod prawf o chwe mis yn llwyddiannus. Cyflogir deiliad y swydd ar drefniant PAYE a bydd eu canolfan weithio ym mhrif swyddfa'r cwmni yng Nghaerdydd, Four Elms.

Gallwn gynnig patrwm gweithio hybrid sy'n cyfuno gweithio gartref â chyfnodau o weithio yn y swyddfa er mwyn sicrhau cydbwysedd da rhwng bywyd a gwaith. Gall fod angen gweithio gyda'r nosau ac ar benwythnosau weithiau.

Mae NoFit State yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol ac mae'n cydymffurfio â'r holl ddeddfwriaeth cyflogaeth a'r gofynion statudol fel safon ofynnol i adeiladu arni.

NoFit State Community Circus: Registered Company Number | Rhif Cwmni 3180348 / Registered Charity Number | Rhif Elusennol 1102850
NoFit State Circus Trading: Registered Company Number | Rhif Cwmni 06072806

Y Broses Recriwtio

Dyddiadau allweddol

Dyddiad cau ar gyfer ceisiadau:	12 ganol dydd, dydd llun 9 Tachwedd 2026
Cyfweliadau:	Wythnos yn dechrau 16 Tachwex
Syniad o'r dyddiad dechrau:	Cyn gynted â phosibl

Mae hygyrchedd yn ganolog i'n hethos a chaiff hynny ei adlewyrchu yn y ffordd yr awn ati i recriwtio. Os teimlwch y gallech wneud y swydd hon ond nad ydych yn ticio pob bocs ym manyleb y person, neu os credwch y byddai arnoch angen tipyn o hyfforddiant neu gefnogaeth ychwanegol er mwyn llwyddo'n llwyr, byddem yn dal wrth ein bodd yn clywed wrthych. Rydym yn awyddus iawn i benodi'r person gorau ar gyfer y swydd ar sail gallu a photensial – a gallwn gynnig cyfleoedd ar gyfer cefnogaeth a datblygiad proffesiynol yn y swydd.

Ar hyn o bryd, nid oes gan bobl o gefndiroedd y mwyafrif byd-eang na phobl o dan 30 oed gynrychiolaeth ddigonol yn ein tîm ac felly rydym yn annog pobl o'r grwpiau hyn, yn neilltuol, i ymgeisio.

Rhowch wybod i ni os bydd arnoch angen i ni wneud rhyw addasiadau yn ystod y broses ymgeisio neu recrwitio a byddwn yn barod iawn i'ch cefnogi. Gallwch gysylltu â Lizzy Ferguson ar lizzy@nofitstate.org

Sut i ymgeisio

https://www.nofitstate.org/cy/amdanom/gyrfaoedd-a-chastio/

Gofynnir i chi lenwi'r ffurflen gais a'r ffurflen fonitro cyfle cyfartal. Cewch anfon eich CV atom hefyd os dymunwch, ond seilir y penderfyniadau ar y brif ffurflen gais.

Anfonwch y ceisiadau i jobs@nofitstate.org

Neu eu postio i: Marketing and Communications Assistant Application
NoFit State Circus
Four Elms Road
Caerdydd CF24 1LE

Rhaid i ymgeiswyr fod yn gymwys i weithio yn y Deyrnas Unedig